Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid: 8 Chwefror 2023

Agenda a chrynodeb o Cyfarfod y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid 8 Chwefror 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 22 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 22 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Cyfarfod 9-10 Tachwedd 2022: cofnodion a chamau gweithredu

Adolygiad annibynnol o'r cyllid a'r gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid: diweddariad

Y Pwyllgor Pobl Ifanc

Atgyfnerthu sail ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru neu sefydlu un newydd: ystyriaethau polisi a meysydd i'w hystyried ymhellach

Marchnata a Chyfathrebu

Unrhyw Fater Arall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol

- Sharon Lovell (SL) (Cadeirydd)
- Simon Stewart (SSt)
- Shahinoor Shumon (SSh)
- Kelly Harris (KH)
- Marco Gil-Cervantes (MG)
- Sian Elen Tomos (ST)
- Deb Austin (DA)
- Cyd-gadeirydd Pwyllgor Pobl Ifanc (1)
- Cyd-gadeirydd Pwyllgor Pobl Ifanc (2)
- Catrin James (CJ) (Hwylusydd Pwyllgor Pobl Ifanc)
- Hannah Wharf (HW) Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru
- Dyfan Evans (DE), Pennaeth y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid, Llywodraeth Cymru
- Donna Robins (DR), Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru
- Kirsty Harrington (KHa), Swyddog Polisi Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru
- Dareth Edwards (DaE), Rheolwr Polisi Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru

## Ymddiheuriadau

- David Williams (DW)
- Lowri Jones (LJ)
- Joanne Sims (JS)
- Victoria Allen (VA) Rheolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Nodwyd y gwrthdaro rhwng buddiannau a ganlyn:

- SSt yw Deon Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam – un o'r sefydliadau addysg uwch sy'n ymwneud â'r adolygiad cyllid
- KH yn Gadeirydd Paneli Cynghori Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

# Cyfarfod 9-10 Tachwedd 2022: cofnodion a chamau gweithredu

Mae'r cofnodion a'r camau gweithredu o gyfarfod 9-10 Tachwedd 2022 wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Cytunodd yr aelodau i adolygu a chymeradwyo cofnodion y dyfodol dros e-bost cyn pob cyfarfod, pan fo'n bosibl, i sicrhau eu cyhoeddi'n brydlon.

### Cam Gweithredu 1: Kha i anfon cofnodion i aelodau a threfnu iddynt gael eu cyhoeddi cyn cyfarfod dilynol y Bwrdd, pan fo modd

Yn dilyn y trafodaethau yng nghyfarfod mis Tachwedd, mae aelodaeth y Grwpiau Cyfranogiad Gweithredu bellach wedi'i sefydlu. Bydd cyfarfodydd yn dechrau cael eu cynnal yn ystod y 6 i 8 wythnos nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny sydd wedi eu henwebu eu hunain i fod yn Gadeirydd i'r Grwpiau Cyfranogiad Gweithredu.

# Adolygiad annibynnol o'r cyllid a'r gwariant ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## wasanaethau gwaith ieuenctid: diweddariad

Rhoddodd swyddogion ddiweddariad ar yr adolygiad cyllid annibynnol, gan gynnwys trosolwg o dri cham yr adolygiad a'r amserlen gysylltiedig. Ochr yn ochr â'r diweddariad hwn, rhannodd swyddogion hefyd grynodeb o ddyraniadau Grant Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf, ynghyd â manylion gweithgareddau a chyllid y cytunwyd arnynt yn ymwneud ag argymhellion yr IYWB.

Darperir fersiwn wedi'i diweddaru o'r crynodeb hwn fel eitem safonol ym mhob cyfarfod i ddangos sut mae'r dyraniadau hyn yn datblygu dros amser.

### Cam gweithredu 2: Gofynnwyd i'r aelodau nodi unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar y crynodeb cyllid i DR

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad. Bydd angen i'r adolygiad bwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd a dull system gyfan. Gofynnodd yr aelodau am wahodd ymchwilydd o'r tîm adolygu cyllid i gyfarfod yn y dyfodol i esbonio'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer y prosiect hwn.

### Cam gweithredu 3: DR i ofyn i'r tîm prosiect adolygu cyllid ystyried y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhan o'r adolygiad hwn

### Cam gweithredu 4: DR i wahodd ymchwilydd o'r tîm adolygu cyllid i gyfarfod yn y dyfodol

## Y Pwyllgor Pobl Ifanc

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Nododd swyddogion bod ymarfer caffael wedi'i gynnal yn ddiweddar i benodi sefydliad i gydlynu a rheoli gwaith y Pwyllgor Pobl Ifanc. Mae'r contract hwn wedi'i ddyfarnu i bartneriaeth sy'n cynnwys EYST, Llamau ac Urdd Gobaith Cymru.

Yn ogystal â gwerthuso'n barhaus y dulliau a ddefnyddir gan y Pwyllgor Pobl Ifanc yn ystod cyfnod y contract, rhoddir ystyriaeth hefyd i ddefnyddio dulliau eraill o ymgysylltu â phobl ifanc i feithrin dealltwriaeth o’r arferion gorau yn y maes hwn.

Rhannodd cyd-gadeiryddion y Pwyllgor Pobl Ifanc sut y byddant yn ymgysylltu ag aelodau'r pwyllgor yn ogystal â'r Bwrdd, gan nodi eu nod i roi adborth i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod ar drafodaethau diweddar y pwyllgor. Awgrymodd yr aelodau y byddai'n fuddiol i'r cyd-gadeiryddion ymuno â'r Grŵp Cyfranogiad Gweithredu 'Mae pobl ifanc yn ffynnu’.

**Cam gweithredu 5: KH fel Cadeirydd y Grŵp Cyfranogiad Gweithredu 'Mae pobl ifanc yn ffynnu' i wahodd y cyd-gadeiryddion i ymuno â'r grŵp hwnnw**

## Atgyfnerthu sail ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru neu sefydlu un newydd: ystyriaethau polisi a meysydd i'w hystyried ymhellach

Cyflwynodd swyddogion bapur yn seiliedig ar y gwaith a wnaed hyd yma i ystyried ymhellach faterion sy'n ymwneud ag atgyfnerthu’r sail ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Er mwyn i'r gwaith symud ymlaen yn effeithiol, nododd yr aelodau bwysigrwydd cyfathrebu clir gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â chasglu gwybodaeth a safbwyntiau aelodau'r Grŵp Cyfranogiad Gweithredu a'r sector yn ehangach.

Roedd yr aelodau yn cydnabod cymhlethdod llawer o'r materion sy'n ymwneud â deddfwriaeth. I gefnogi'r gwaith hwn awgrymodd yr aelodau sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd y grŵp yn bwrw ymlaen â'r materion hyn cyn iddynt gael eu trafod yng nghyfarfod dilyn y Bwrdd. Cytunodd yr aelodau i hysbysu SL pe baent am ymuno â'r grŵp gorchwyl a gorffen.

### Cam gweithredu 6: Aelodau i anfon eu datganiadau o ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp gorchwyl a gorffen deddfwriaeth i SL. SL i weithio gyda swyddogion i sefydlu'r grŵp hwn

## Marchnata a Chyfathrebu

Rhoddodd y swyddogion ddiweddariad ar y dull arfaethedig o farchnata a chyfathrebu am y flwyddyn i ddod.

Bydd cynllun lefel uchel sy'n defnyddio methodoleg OASIS yn cael ei ddatblygu gan CWVYS mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru dros yr wythnosau nesaf. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ysgogi gan amcanion allweddol. Bydd y Grŵp Marchnata a Chyfathrebu dan arweiniad y sector yn chwarae rhan ganolog o ran llunio'r cynllun gwaith manwl.

### Cam gweithredu 7: Swyddogion i rannu unrhyw ddyddiadau digwyddiadau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod gyda'r Bwrdd cyn gynted â phosibl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Unrhyw Fater Arall

Rhoddodd MG wybod i'r Bwrdd a'r swyddogion am gyfleoedd sydd ar y gweill i gysylltu â phartneriaid rhyngwladol i gyfnewid yr arferion gorau o ran gwybodaeth ieuenctid a meysydd cysylltiedig eraill.

### Cam gweithredu 8: MG i roi manylion i swyddogion o gyfleoedd sydd i ddod ar gyfer ymgysylltu â chydweithwyr rhyngwladol

Cytunodd yr aelodau fod lle i archwilio cyfleoedd pellach i ddysgu gan bartneriaid, rhwydweithiau a Byrddau eraill dramor. Awgrymwyd y byddai'r Dr Howard Williamson yn gyswllt defnyddiol yn y cyd-destun hwn.

### Cam gweithredu 9: DE i gysylltu â'r Dr Howard Williamson i gael cyngor pellach

Nododd swyddogion y bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu i aelodau ynglŷn â hawlio am amser a dreulir ar weithgareddau y tu hwnt i bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd (pan fo hynny'n berthnasol).

### Cam Gweithredu 10: DE i rannu canllawiau ag aelodau'r Bwrdd ar weithgareddau cymwys

Cynigiodd swyddogion fod dyddiadau'n cael eu nodi a'u rhannu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd am weddill 2023, gan ystyried argaeledd cyd-gadeiryddion y Pwyllgor Pobl Ifanc.

### Cam gweithredu 11: KHa i ddrafftio amserlen cyfarfod ar gyfer 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## i'w rhannu ag aelodau'r Bwrdd a chyd-gadeiryddion y Pwyllgor Pobl Ifanc


**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-8-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.